CA 36
Ymgynghoriad ar asedau cymunedol
Consultation on community assets
Ymateb gan: Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
Response from: Welsh Local Government Association

# Briff CLlLC

24 Mehefin 2022

# Tystiolaeth i Bwyllgor Llywodraeth Leol a Thai'r Senedd: Asedau Cymunedol

Jon Rae, Cyfarwyddwr Adnoddau

**Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru – Llais Cynghorau Cymru**
Mae Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC) yn sefydliad trawsbleidiol dan arweiniad gwleidyddol sy'n ceisio rhoi llais cryf i lywodraeth leol ar lefel genedlaethol.

Rydym yn cynrychioli buddiannau llywodraeth leol ac yn hybu democratiaeth leol yng Nghymru.

Y 22 cyngor yng Nghymru yw ein haelodau ac mae'r tri awdurdod tân ac achub ac awdurdodau'r tri pharc cenedlaethol yn aelodau cyswllt.

**Credwn fod y syniadau sy'n newid bywydau pobl yn digwydd yn lleol.**
Mae cymunedau ar eu gorau pan maent yn teimlo cysylltiad â'u cyngor drwy ddemocratiaeth leol. Trwy gefnogi'r cysylltiadau hyn, eu hwyluso a'u creu, gallwn ddatblygu democratiaeth leol fywiog sy'n galluogi cymunedau i ffynnu.

**Ein nod pennaf** yw hyrwyddo, diogelu, cefnogi a datblygu llywodraeth leol ddemocrataidd a buddiannau awdurdodau lleol yng Nghymru.

**Byddwn yn cyflawni ein gweledigaeth drwy**
• Hyrwyddo rôl ac amlygrwydd cynghorwyr ac arweinwyr cynghorau
• Sicrhau'r mwyaf o ryddid yn lleol wrth weithredu deddfwriaeth neu ganllawiau statudol
• Cefnogi a sicrhau cyllid cynaliadwy a hirdymor i gynghorau
• Hybu gwelliant dan arweiniad y sector
• Annog democratiaeth leol fywiog, gan hybu mwy o amrywiaeth
• Cefnogi cynghorau i reoli eu gweithluoedd yn effeithiol.

**Rhagarweiniad**

1. Dros ddwy flynedd ddiwethaf y pandemig bu newid mewn diwylliant, ymarfer a'r cysylltiadau rhwng cymunedau a gwasanaethau cyhoeddus, ac mae grym gweithredu cymunedol yn dod yn fwyfwy amlwg ac yn ennyn mwy o werthfawrogiad a pharch. Mae yno awydd ymysg pawb sy'n gweithio yn yr amryw sectorau i sicrhau fod y momentwm a'r cynnydd a wnaed yn cael eu gosod wrth wraidd y cynlluniau ar gyfer adfer. Mewn rhai meysydd roedd hynny'n beth hollol

newydd ac mewn rhai eraill roedd y gwaith yn barhad o'r cysylltiadau a ddatblygwyd cyn y pandemig. Dysgwyd gwersi ymhob achos a chyflwynwyd ffyrdd o weithio y dymuna pobl ddal ati â hwy a'u datblygu ymhellach.

2. Bu'r trefniadau cydweithio lleol rhwng cynghorau, cynghorau tref a chymuned a sefydliadau yn y trydydd sector, gan gynnwys Cynghorau Gwirfoddol Sirol, yn allweddol wrth ddefnyddio cyllid Llywodraeth Cymru i hybu gwirfoddoli, lleihau unigedd ac arwahanrwydd a sefydlu canolfannau a phrosiectau cymorth cymunedol ac ati, gyda'r nod o ddiogelu a gwarchod dinasyddion a chymunedau.

3. Yn ogystal â hynny, wrth inni symud ymlaen o'r pandemig bydd y polisïau presennol a'r gwasgfeydd ar adnoddau, ar ben yr argyfwng costau byw, yn golygu bod angen i wasanaethau ganolbwyntio mwy ar y gymuned, a bydd hynny'n gofyn am fwy o gydweithio rhwng y partneriaid.

**4.** Mae Trosglwyddo Asedau Cymunedol yn cyd-fynd ag agenda cynghorau Cymru ar gyfer lleoliaeth a chreu cymunedau lleol cydnerth sydd â grym yn eu dwylo. Bydd cynghorau'n dal i weithio mewn partneriaeth ar sail dulliau gweithredu sy'n canolbwyntio ar ddinasyddion a chymunedau wrth gynnal gwasanaethau lleol cynaliadwy, gan gynnwys Trosglwyddo Adnoddau Cymunedol, er mwyn galluogi cymunedau i gynnal neu wella cyfleusterau a gwasanaethau cymunedol.

5. Yn **Atodiad 1** gwelir y sylwadau a gyfrannodd Cangen Cymru o Gymdeithas y Prif Syrfewyr Ystadau i'r ymchwiliad ac a ddefnyddiwyd yn sail ar gyfer ymateb y Gymdeithas Llywodraeth Leol.

- **A yw'r fframwaith presennol o statudau a pholisïau'n grymuso cymunedau yng Nghymru i ddatblygu asedau cymunedol;**

6. Ar hyn o bryd mae cynghorau'n ymdrin â Throsglwyddo Asedau Cymunedol drwy'r Caniatâd Gwaredu Cyffredinol, sy'n galluogi cyrff cyhoeddus i drosglwyddo perchnogaeth a rheolaeth dros dir ac adeiladau i gymunedau lleol am "lai na'r pris gorau" ac yn unol â'r Rheolau Gweithdrefnau Trafodion Tir.

7. Mae'r cysylltiadau â phartneriaid a budd-ddeiliaid, boed y rheiny'n rhai newydd neu'n hirsefydlog, wedi cryfhau er mwyn mynd i'r afael â heriau llymder a'r adferiad wedi'r pandemig. Dylai unrhyw ofyniad ychwanegol ategu ac atgyfnerthu'r dull gwirfoddol o gydweithio sydd ar waith ar hyn o bryd, gan ddatblygu cysylltiadau presennol, rhannu arferion da ymhob sector a'u dysgu, a manteisio ar bartneriaethau amlasiantaethol cenedlaethol a lleol er mwyn hwyluso Trosglwyddiadau Asedau Cymunedol effeithiol.

8. Os bwriedir ystyried unrhyw ofynion statudol eraill dylai hynny fod ar ffurf pŵer caniataol yn hytrach na phŵer gorfodol a rhwymol, gan y byddai hynny'n galluogi

cymunedau i gychwyn trafodaethau â chyrff cyhoeddus ynghylch trosglwyddo asedau pan mae cynigion gerbron i gau neu gwtogi ar ased cymunedol, neu pan mae cymuned yn mynegi consenswس cyffredinol ei bod yn dymuno rheoli ryw ased cymunedol penodol yn y dyfodol.

9. Dylai unrhyw bŵer a gynigir, felly, fod ar ffurf 'datganiad o ddiddordeb y gymuned' er mwyn ei gwneud yn eglur nad yw hwn yn rym a fedrai fod yn drech na chynlluniau cyrff cyhoeddus ar gyfer rheoli asedau nac yn un y gellid ei arfer heb gymeradwyaeth briodol gan aelodau etholedig. Byddai hefyd angen rhoi trefniadau diogelu priodol ar waith er mwyn sicrhau 'diwydrwydd dyladwy' ar ran sefydliadau cymunedol cyfansoddedig, darparu tystiolaeth bendant o gefnogaeth y gymuned ehangach a'r buddion i'r economi a lles dinasyddion a'r gymuned, a datblygu cynllun busnes hyfyw ar gyfer cynaladwyedd ariannol hirdymor.

10. Mae'r dystiolaeth o'r cynlluniau sydd wedi llwyddo hyd yn hyn yn awgrymu bod angen cefnogaeth helaeth yn y gymuned cyn ac ar ôl Trosglwyddo Asedau Cymunedol.

11. Bydd gofyn i gynghorau neilltuo adnoddau sylweddol ar gyfer rheoli unrhyw gofrestr arfaethedig o asedau cyhoeddus a phreifat a chefnogi cymunedau i reoli asedau a drosglwyddwyd. Bydd gofyn am ymrwymiad cenedlaethol i ddarparu adnoddau i gynghorau ac asiantaethau eraill er mwyn sicrhau fod Trosglwyddo Asedau Cymunedol yn cyfrannu'n effeithiol at rymuso cymunedau a meithrin eu cadernid.

**I ba raddau y mae'r cynllun Trosglwyddo Asedau Cymunedol yn hybu a chefnogi datblygiad effeithiol asedau cymunedol**

12. Dros y ddegawd ddiwethaf mae'r drefn ar gyfer Trosglwyddo Asedau Cymunedol wedi bod yn esblygu a lluniwyd canllawiau i gynorthwyo yn hynny o beth, gan gynnwys: Pecyn gwaith Trosglwyddo Asedau Cymunedol a ddatblygwyd gan y Gweithgor Asedau Cenedlaethol, a elwir bellach yn Ystadau Cymru, ac a lansiwyd ar ffurf ddiwygiedig yng nghynhadledd gyntaf y corff hwnnw ar 3 Hydref 2019; canllawiau mwy penodol ynglŷn â Throsglwyddo Asedau Cymunedol a gomisiynodd Ken Skates AC pan oedd yn Ddirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth; a'r rhaglen beilot a gomisiynodd Lesley Griffiths AC, y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi, i gefnogi sefydliadau cymunedol yn ardal Gwent wrth feddiannu a rheoli asedau lleol a datblygu'r gwaith a wnaed eisoes gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent.

13. Sefydlodd Cymdeithas Llywodraeth Cymru ac Un Llais Cymru grŵp tasg a gorffen dan arweiniad aelodau yn 2019 er mwyn ystyried canlyniadau [Adolygiad Annibynnol o gynghorau tref a chymuned] a gynhaliwyd ar ran Llywodraeth

Cymru, a thrafod sut fedrai'r Gymdeithas ac Un Llais Cymru weithredu'r argymhellion perthnasol ar y cyd. Roedd y pynciau dan sylw'n cynnwys atgyfnerthu partneriaethau lleol, dirprwyo asedau a gwasanaethau, cynllunio ar sail lleoedd, democratiaeth leol ac ehangu cyfranogiad.

14. Mae penderfyniadau'r grŵp ynglŷn â Throsglwyddo Asedau Cymunedol wedi'u disodli bellach gan ddulliau gweithredu cenedlaethol fel Ystadau Cymru a bydd cynlluniau Llywodraeth Cymru i weithredu argymhellion yr astudiaeth Trosglwyddo Asedau Cymunedol (Mawrth 2021) yn ogystal â'r Polisi Cymunedol arfaethedig yn dylanwadu ar ddulliau gweithredu.

15. Gwelwyd fod hyrwyddo arferion da ar draws y sectorau wedi bod o fudd aruthrol wrth annog Trosglwyddo Asedau Cymunedol yn effeithiol. Mae Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru wedi cymryd rhan yng nghynadleddau Llywodraeth Cymru ac Ystadau Cymru.

16. Ceir nifer o enghreifftiau o arferion da wrth Drosglwyddo Asedau Cymunedol, megis:

- Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf, sydd wedi datgan nad oes arno angen nifer o'i asedau mwyach (cyfeirir atynt fel 'Asedau o Werth Cymunedol'). Ar wefan y Cyngor darperir canllawiau, templedi ar-lein, disgrifiad manwl o bob adeilad a phwynt cyswllt i gael gwybodaeth, oll â'r nod o helpu i sicrhau y trosglwyddir asedau'n ddidrafferth.

- Mae Cyngor Sir Powys yn hysbysebu asedau tir ac adeiladau y byddai modd eu trosglwyddo. Darperir ffurflenni datgan diddordeb ar-lein a thempled ar gyfer llunio achosion busnes er mwyn annog pawn i fagu dealltwriaeth drylwyr o risgiau pob prosiect.

- Mae gan Gyngor Bro Morgannwg becyn gwaith cynhwysfawr gyda chanllawiau a thempledi ac mae'n cyfeirio ymgeiswyr at wybodaeth ychwanegol, gan gynnwys ffynonellau cyllid.

17. Ar sail y profiadau'n genedlaethol ceir awgrym mai'r ffordd orau o drefnu Trosglwyddiadau Asedau Cymunedol llwyddiannus a chynaliadwy sy'n bodloni anghenion cymunedau lleol i'r eithaf yw meithrin cyswllt effeithiol â darparwyr posib fel cynghorau tref a chymuned, sefydliadau trydydd sector a grwpiau cymunedol. Dylid gwneud hynny drwy gefnogi'r gymuned a meithrin ei gallu i gyflawni mewn meysydd fel llunio cynlluniau busnes cadarn, diwydrwydd dyladwy a chynaladwyedd ariannol hirdymor.

**Ymchwilio i'r rhwystrau a heriau y mae cymunedau'n eu hwynebu wrth feddiannu asedau cyhoeddus neu breifat, gan gynnwys cyllid a gwasanaethau cynnal;**

18. Cynhaliodd Llywodraeth Cymru astudiaeth ym mis Mai 2019 er mwyn deall profiadau cynghorau wrth Drosglwyddo Asedau Cymunedol i'r Trydydd Sector a Chynghorau Tref a Chymuned. Ymatebodd pymtheg o awdurdodau lleol a'r rhain oedd y canfyddiadau pwysicaf:

    - Dywedodd un ar ddeg o gynghorau fod ganddynt bolisi ffurfiol ar Drosglwyddo Asedau Cymunedol.
    - Roedd pump o gynghorau wedi ffurfioli'u polisi Trosglwyddo Asedau Cymunedol a'i ymgorffori yn eu polisi Asedau/Ystadau cyffredinol neu gynllun corfforaethol y sefydliad.
    - Dywedodd y cynghorau y bu mwy o alw am Drosglwyddo Asedau Cymunedol mewn blynyddoedd diweddar oherwydd llymder.
    - Mae anfanteision Trosglwyddo Asedau Cymunedol yn cynnwys prinder cyllid ac adnoddau i drosglwyddo asedau'n ddiymdroi; mae'r drefn yn aml yn gymhleth ac mewn rhai achosion bu gofyn neilltuo swyddog penodol ar gyfer y gwaith.
    - Cydnabuwyd fod angen cynyddu gallu'r derbynwyr i dderbyn a rheoli asedau mewn meysydd arbenigol, gan gynnwys rheoli a chynnal a chadw adeiladau, iechyd a diogelwch a meysydd eraill a gaiff eu rheoleiddio.

19. Yn ogystal â hynny, roedd adroddiad Archwilio Cymru: *Darpariaeth Gwasanaethau Llywodraeth Leol i Gymunedau Gwledig: Trosglwyddo Asedau Cymunedol (Tachwedd 2018)*[1] yn cynnwys yr argymhellion a ganlyn:

    > "Er mwyn cynorthwyo i gynnal cymunedau gwledig, mae ar wasanaethau angen gwneud pethau'n wahanol yn y dyfodol [a bod] cynghorau yn gwneud mwy i ddatblygu cydnerthedd cymunedol a hunangymorth trwy weithio â chyrff perthnasol fel Canolfan Cydweithredol Cymru [Cwmpas Cymru, bellach] i gefnogi menter gymdeithasol a modelau busnes mwy cydweithredol… galluogi gweithredu lleol trwy gefnogi trosglwyddiad asedau cymunedol ac adnabod yr asedau hynny y byddai'n addas eu trosglwyddo…".

20. Mae'n hanfodol rhoi pob cefnogaeth i gymunedau er mwyn eu galluogi i benderfynu ar sail yr holl wybodaeth a ddylid bwrw ymlaen â throsglwyddo ased. Os yw grwpiau cymunedol â diddordeb mewn meddiannu ased, maent yn aml yn

[1] https://busnes.senedd.cymru/documents/s81163/PAC5-31-18%20PTN1%20-%20Adroddiad%20ACC%20-%20Gwasanaethau%20Llywodraeth%20Leol%20i%20Gymunedau.pdf

orhyderus am bethau fel talu costau gweithredu a defnyddio, a'u gallu/amser i gyflawni. Mae'n ddoeth i'r Cyngor, felly, fod yn onest ynglŷn â chostau gweithredu, gofynion Iechyd a Diogelwch, atebolrwydd cyhoeddus ac yn y blaen (os mai ased y cyngor ydyw) a gweithio gyda'r grŵp cymunedol neu ddod o hyd i sefydliad arall a fedrai weithio â hwy wrth lunio cynllun busnes realistig.

21. Mae'n hanfodol felly bod cynghorau a darpar ymgeiswyr yn trafod materion cyllidebol cyn dod i unrhyw benderfyniad. Mae'n arfer da i feithrin cyswllt yn gynnar wrth ragamcanu a chynllunio cyllidebau; er bod y setliad llywodraeth leol yn newid yn hwyr yn aml iawn, gellir llunio cyllidebau lleol dangosol neu dros dro ar sail tybiaethau.

22. Yn ogystal â hynny, dylai cynghorau fynd ati â'u partneriaid i ymchwilio i'r goblygiadau posib i wasanaethau ar sail tybiaethau cyllidebol fel hynny, fel bod ganddynt gymaint o amser â phosib i'r cyfraniad y gallent ei wneud wrth ategu neu ddarparu unrhyw wasanaethau a chynllunio eu cyllidebau eu hunain.

23. Gallai trafodaethau felly gynnwys sôn am y posibilrwydd o sicrhau cyllid trosiannol mewn cysylltiad â dirprwyo unrhyw wasanaethau neu drosglwyddo unrhyw asedau, a dylai hynny fod yn un o'r pethau pennaf i'w hystyried cyn cytuno ar unrhyw drefniadau gwahanol. Dros y ddegawd ddiwethaf o lymder bu'n rhaid i gynghorau warchod gwasanaethau statudol fel addysg a gwasanaethau cymdeithasol, a syrthiodd yr ergydion trymaf ar wasanaethau a chyllidebau dewisol; y gwasgfeydd cyllidebol hyn a'r gostyngiad cyffredinol mewn termau real yn y Grant Cynnal Refeniw, sydd wedi arwain at gwtogi ar nifer o wasanaethau cymunedol neu'u trosglwyddo i ddarparwyr eraill fel cynghorau tref a chymuned neu'r trydydd sector.

## Darganfod pa wersi y gellir eu dysgu o'r tu hwnt i'r ffin

24. Yn Lloegr, o dan Ddeddf Lleoliaeth 2011 mae Llywodraeth y Deyrnas Gyfunol wedi mynd ati i gyflwyno 'Hawl y Gymuned i Gynnig' er mwyn grymuso cymunedau i ymateb i'r heriau hyn drwy gymryd hyd yn oed mwy o reolaeth dros dir ac adeiladau lleol. Gweithiodd y Gymdeithas Llywodraeth Leol yn Lloegr â Locality wrth ddatblygu nifer o adnoddau i gymunedau ac aelodau etholedig er mwyn hyrwyddo dulliau effeithiol o Drosglwyddo Asedau Cymunedol.

25. Mae'r Ddeddf Grymuso Cymunedol (Yr Alban) wedi diffinio proses gyfreithiol ar gyfer trosglwyddo asedau sy'n rhoi hawliau newydd i gymunedau ac yn gosod dyletswyddau ar gyrff cyhoeddus. Mae Cymdeithas Ymddiriedolaethau Datblygu'r Alban wedi datblygu nifer o adnoddau i gynorthwyo cymunedau i feddiannu asedau cymunedol.

26. Mae New Local hefyd wedi nodi nifer o adnoddau ac astudiaethau achos sy’n dangos sut fedr cyfleusterau lleol ffynnu dan berchnogaeth gymunedol.

## Atodiad A

Geoff Bacon
Pennaeth Gwasanaethau Eiddo Cyngor Abertawe
Cadeirydd Cangen Cymru o Gymdeithas y Prif Syrfewyr Ystadau

Trosglwyddo Asedau Cymunedol

Mae Trosglwyddo Asedau Cymunedol yn ddull a ddefnyddiwyd ers tro i alluogi cymunedau i berchnogi a rheoli tir ac adeiladau sy'n eiddo i'r cyhoedd.

Mae'r Caniatâd Gwaredu Cyffredinol yn galluogi amrywiaeth o gyrff cyhoeddus i drosglwyddo perchnogaeth a rheolaeth eu tir a'u hadeiladau i gymunedau lleol am 'lai na'r pris gorau' – llai na'r pris llawn ar y farchnad.

Gall cymunedau gychwyn trafodaethau â chyrff cyhoeddus ynglŷn â Throsglwyddo Asedau Cymunedol os ydynt yn bwriadu hybu lles cymdeithasol, economaidd neu amgylcheddol.

Mae Cyngor Abertawe wedi mabwysiadu polisi Trosglwyddo Asedau Cymunedol sydd wedi'i ymgorffori yn y Cyfansoddiad fel rhan o'r Rheolau Gweithdrefnau Trafodion Tir. Mae'n nodi bod yn rhaid i Bennaeth Gwasanaeth a'r Aelod Cabinet perthnasol gefnogi unrhyw gais i Drosglwyddo Ased Cymunedol.  Os nad oes cefnogaeth i'r cynnig o fewn y Cyngor yna ni all fynd yn ei flaen.

Os yw'r Cyngor yn gefnogol, mae'n rhaid ymgynghori â'r Pennaeth Gwasanaethau Eiddo yn unol â'r Rheolau Gweithdrefnau Trafodion Tir. Bydd y Pennaeth yn asesu statws yr eiddo, ei ddaliadaeth, ei werth ar y farchnad agored a'r potensial ar gyfer sicrhau derbyniad cyfalaf, a bydd hefyd yn meithrin cyswllt â'r adran gefnogol. Mae'n rhaid ymgynghori â'r Gwasanaethau Eiddo a'r Adran Gyllid cyn adrodd ynghylch y cais, fel bod modd ystyried goblygiadau ariannol y trosglwyddiad a sicrhau nad yw'n mynd yn groes i reolau cymorthdaliadau. Yn y cam hwn hefyd bydd angen rhoi sylw i unrhyw oblygiadau cyfreithiol ac ariannol, ac efallai materion cydraddoldeb ac ymgysylltu.

Wedi hynny bydd yn rhaid bod yr adran gefnogol yn fodlon cyflwyno adroddiad i'r Cabinet yn manylu ynghylch manteision y cynnig i'r Cyngor a'r gymuned yng nghyd-destun hybu lles cymdeithasol, economaidd neu amgylcheddol yn yr ardal dan sylw.

Nod Trosglwyddo Asedau Cymunedol yn y pen draw yw grymuso cymunedau – hynny yw, sicrhau y caiff tir ac adeiladau eu cadw neu'u gweddnewid er budd y cyhoedd drwy roi'r asedau hyn ym mherchnogaeth a rheolaeth y gymuned.

Mae gweithdrefnau Cyngor Abertawe ar gyfer Trosglwyddo Asedau Cymunedol yn seiliedig ar yr egwyddorion a ganlyn:

• Fel arfer ni chymeradwyir trosglwyddo ased ond os oes angen yr eiddo er parhad gwasanaeth;

• Mae'n rhaid i'r trosglwyddiad ddod â mantais i'r Cyngor a'r Gymuned fel ei gilydd drwy hybu lles cymdeithasol, economaidd neu amgylcheddol a chefnogi nodau a blaenoriaethau'r Awdurdod;

• Yn amlach na pheidio dylai fod yno elfen o fudd ariannol i'r Awdurdod ar y cychwyn.

• Bydd yr Awdurdod yn annog grwpiau cymunedol i gydweithio a rhannu asedau er mwyn sicrhau'r gwerth cymdeithasol mwyaf a'r gwerth gorau am arian;

• Mae'n rhaid fod bwriad i ddefnyddio'r ased er budd y gymuned ac i gynnig cyfleoedd go iawn i sefydliadau llwyddiannus ac annibynnol yn y gymuned neu'r trydydd sector i ddod yn fwy cynaliadwy i'r dyfodol;

• Nid yw'r Awdurdod yn rhwym i Drosglwyddo Asedau Cymunedol.

• Fel arfer ni fydd telerau sylfaenol unrhyw drosglwyddiad yn agored i drafodaeth, a byddant yn seiliedig ar drosglwyddo'r ased i'r sefydliad drwy brydles hir am rent pupur corn, a bod y prydlesai'n cymryd llwyr gyfrifoldeb dros waith trwsio ac unrhyw wariant ar y tir neu'r ased dan sylw.

Mae'r polisi'n gweithio ar y sail y byddwn yn ymateb i gais gan grŵp lleol neu gyngor tref neu gymuned. Nid yw Cyngor Abertawe'n marchnata asedau'n rhagweithiol ond mae'n rhaid iddo fod yn ffyddiog bod yr holl grwpiau cymunedol yn cyfranogi o unrhyw gais, ac mae'n annog grwpiau cymunedol i gydweithio a rhannu asedau er mwyn sicrhau'r gwerth cymdeithasol mwyaf a'r gwerth gorau am arian.

Mae'n rhaid i unrhyw grŵp sy'n dymuno gwneud cais gyflwyno datganiad o ddiddordeb yn gyntaf.

Mae 'r uchod yn gosod trefn bendant ac mae'r un fath yn wir ar gyfer holl awdurdodau lleol Cymru, ac er bod yno lawer o enghreifftiau calonogol yma ac acw, gwelir fod yr un problemau'n codi ymhobman.

- Mae'n rhaid bod gan unrhyw sefydliad â diddordeb gyfansoddiad, ac mae'n rhaid iddo fod yn ddigon cadarn i ateb yr her.
- Yn aml iawn mae'r gofyniad i lenwi ffurflen datgan diddordeb yn ddigon i drechu diddordeb pobl!
- Mae angen ennyn cyfranogiad y gymuned ehangach neu fel arall ni fydd pawb yn gefnogol.
- Mae angen i wasanaeth eirioli yn y Cyngor ysgwyddo'r cyfrifoldeb o hyrwyddo'r achos.

- Mae angen cryn gefnogaeth ar unrhyw sefydliad i ysgwyddo'r cyfrifoldeb ac mae angen darparu adnoddau priodol ar gyfer hynny.

Gyda golwg ar hynny, cynhaliodd Cyngor Sir Gâr ymgynghoriad yn ddiweddar â'r holl Gynghorau Tref a Chymuned yn gofyn iddynt sôn am eu profiadau hyd yn hyn wrth ymdrin â Throsglwyddo Asedau Cymunedol. Parciau a chaeau chwarae yw'r rhan helaeth o'r asedau a drosglwyddwyd ar hyd y blynyddoedd.

Dyma'r prif bwyntiau y soniodd Cynghorau Tref a Chymuned yn eu cylch:

Ymateb 1: 'Nid cymaint fod trosglwyddo'r ased wedi bod yn aflwyddiannus, ond yn hytrach y straen ariannol y mae'r asedau wedi'u rhoi ar y Cyngor Cymuned. Yn 2020 bu'n rhaid i'r Cyngor wario £14,230 wrth fynd i'r afael â chlefyd coed ynn yn y parc a £1,100 arall yn 2021 i dorri mwy o goed, ac mae'r coed ynn sydd ar ôl yn y parc yn dangos arwyddion o'r clefyd ac yn cael eu monitro.'

Ymateb 2: 'Cymerodd y Cyngor Cymuned y cae chwarae drosodd ym mis Mehefin 2019 ar ôl i nifer o drigolion ddweud nad oeddent am ei weld yn diflannu. Mae'r offer yn y cae chwarae'n dirywio ac mae angen pethau newydd yno. Nid oes gan y Cyngor Cymuned yr arian i wneud hyn. Byddai grant cynnal a chadw gan Gyngor Sir Gâr o fudd mawr, byddai'n gymorth aruthrol pe gallem gael hynny.'

Ymateb 3: 'Dylid fod wedi trosglwyddo'r asedau ar sail rhydd-ddaliad yn hytrach na lesddaliad. Nid oedd digon o wybodaeth ar gael am yr eiddo a drosglwyddwyd. Byddai'n fuddiol cael trafodaeth fwy agored â'r Cyngor Sir a llunio cynllun ar y cyd i sicrhau bod y cyfleuster yn llwyddo yn y dyfodol, yn hytrach na'i fod yn fater o drosglwyddo rhwymedigaeth.'

Ymateb 4: 'Byddai'n fuddiol cael pecyn gwaith cynhwysfawr ar gyfer yr ased, gan gynnwys adroddiadau, chwiliadau ac yn y blaen.'

Ymateb 5: 'Dim digon o brofiad gan Gynghorau Cymuned â phethau fel cynllunio parhaus ar gyfer cynnal a chadw'r asedau. Byddai'n fuddiol cael hyfforddiant.'

Mae'r uchod yn tanlinellu'r pwynt fod ar sefydliad angen cryn gymorth nid yn unig i reoli'r ased ffisegol ond hefyd y gwasanaeth a ddarperir ynddo, ac mewn llawer o achosion mae awdurdodau lleol wedi colli'r adnoddau angenrheidiol i gefnogi cymunedau.